Profion Darllen Cenedlaethol

# DARLLEN
## CB6

Enw cyntaf ______________________

Cyfenw ______________________

Ysgol YSGOL CYMERAU

Dosbarth ______________________

Dyddiad geni ( )( ) ( )( ) ( )( )( )( )

Dyddiad y prawf ( )( ) (0)(5) (2)(0)(1)(8)

Cyfanswm y sgôr ( ) (uchafswm 37)

165138

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cwestiynau ymarfer

**Yn y llyfryn hwn, mae nifer o gwestiynau i chi eu hateb mewn ffyrdd gwahanol. Dyma rai cwestiynau ymarfer a fydd yn dangos i chi sut i ateb y gwahanol gwestiynau sydd yn y prawf. Bydd y cyfarwyddiadau'n dweud wrthoch chi beth i'w wneud. I ddechrau, darllenwch y darn darllen sydd yn y bocs isod.**

Bore dydd Llun oedd hi ond doedd Catrin ddim yn gorfod codi'n gynnar i fynd i'r ysgol heddiw. Roedd Catrin wedi gosod ei chloc larwm i'w deffro am naw o'r gloch. Pan ganodd cloch y cloc yn swnllyd, agorodd ei llygaid i weld golau'r haul yn disgleirio'n gryf drwy ffenest ei hystafell. Ar ôl deng munud o ddiogi, cododd Catrin yn araf ac aeth i lawr y grisiau i gael brecwast. Roedd ei mam wedi gwneud wy wedi'i ferwi a thôst gyda diod o sudd oren oer iddi. Ar ôl bwyta'i brecwast, penderfynodd ffonio Elin a Dafydd, ei ffrindiau, i ofyn iddyn nhw ddod draw i'w thŷ yn y prynhawn i wrando ar gerddoriaeth ac i gael sgwrs. Roedd rhaid iddi hi fynd i wisgo wedyn a rhoi bwyd i Pero y ci cyn mynd ag e am dro i'r parc. Meddyliodd wrthi hi ei hun, gan wenu, peth braf ydy cael gwyliau haf!

**a** Pwy wnaeth Catrin ffonio?

Ticiwch **2**.

| | | | |
|---|---|---|---|
| ei mam | ☐ | Elin | ☐ |
| Pero | ☐ | Dafydd | ☐ |

Awgrym: Gwiriwch sawl ateb sydd ei angen.

YSGOL CYMERAU

**b** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

**Tanlinellwch 2** air sy'n dangos nad oedd Catrin ar frys y bore hwnnw.

Awgrym: Gwiriwch sawl gair sydd angen ei danlinellu.

Ar ôl deng munud o ddiogi, cododd Catrin yn araf ac aeth i lawr y grisiau i gael brecwast.

Awgrym: Os ydych chi'n gwneud camgymeriad ac eisiau newid eich ateb, dylech chi ddileu'r ateb cyntaf yn llwyr cyn tynnu llinell newydd.

**c** **Dewiswch a chopïwch 2** air sy'n dweud beth gafodd Catrin i'w fwyta.

Awgrym: Dylech chi edrych eto ar y stori i ddod o hyd i'r atebion.

1. ______________________

2. ______________________

**ch** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Cododd Catrin yn syth ar ôl clywed y cloc larwm. | | |
| Roedd hi'n fore braf o haf. | | |
| Gwisgodd Catrin yn syth ar ôl codi o'r gwely. | | |

**d** Rhowch y digwyddiadau isod yn eu trefn, o 1 i 4, i ddangos beth wnaeth Catrin ar ôl i'r cloc larwm ganu.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

mynd â Pero y ci am dro ☐

codi o'r gwely [1]

cerdded i lawr y grisiau ☐

ffonio ei ffrindiau ☐

YSGOL CYMERAU

**dd** Tynnwch **3** llinell i gysylltu'r geiriau â'r disgrifiadau.

| | |
|---|---|
| sudd oren | disgleirio'n gryf |
| cloc larwm | swnllyd |
| golau'r haul | oer |

**STOPIWCH**

**Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 4.**

**Yn y llyfryn hwn mae tri darn i chi eu darllen a bydd angen i chi ateb cwestiynau ar bob un. Darllenwch y darn cyntaf yn ofalus CYN dechrau ateb y cwestiynau ar y darn. Yna darllenwch yr ail ddarn yn ofalus CYN ateb y cwestiynau ac yn y blaen.**

**Dylech chi weithio drwy'r llyfryn, hyd at ddiwedd tudalen 15, gan stopio pan fydd rhywun yn dweud wrthoch chi am wneud hynny. Cewch gyfeirio at y testun pan fydd angen.**

**Mae gennych chi hyd at 60 munud i wneud y prawf.**

# Ymarfer corff a bwyta'n iach

**Beth ydych chi'n hoffi ei wneud yn eich amser hamdden?**
Efallai eich bod yn hoffi rygbi, pêl-droed, hoci, marchogaeth, nofio neu redeg. Mae pob math o weithgareddau corfforol yn dda i ni!

**Ar ras i bobman!**
Mae nifer o glybiau rhedeg yn trefnu gweithgareddau i bob oed – gallwch fynd gyda'ch teulu neu gyda'ch ffrindiau. Mae clybiau fel hyn yn boblogaidd iawn ac yn aml mae hyd y rasys sydd wedi'u trefnu yn amrywio – gall plant o 7 i 12 oed redeg 1km ond mae disgwyl i oedolyn redeg 5km, 10km neu fwy!

**Blog Mari – aelod o Glwb Rhedeg y Cwm**
Dydd Sadwrn, 3 Mawrth – Es i i'r clwb yn gynnar heddiw. Roedd ras hwyl wedi'i threfnu ar gyfer yr aelodau iau. Hyd y ras oedd un filltir (tua 1500m). Doeddwn i ddim wedi ennill ond nid fi oedd yr olaf chwaith! Rhagor o ymarfer amdani!

Dydd Mercher, 7 Mawrth – Sesiwn ymarfer yn y clwb. Gweithio'n galed! Ras arall mewn llai na phythefnos.

Dydd Sul, 18 Mawrth – Ras hwyl arall heddiw ar lwybrau drwy'r goedwig. Ces i amser gwych ac ennill yr ail wobr!



**Beth yw gwerth ymarfer corff?**
- cadw'n heini
- cadw'r galon yn iach
- cryfhau'r cyhyrau a'r esgyrn
- cynyddu egni'r corff
- mae'n gymorth i gysgu'n dda drwy'r nos

YSGOL CYMERAU

**Bwyta'n iach**
Er mwyn cadw'n iach, rhaid inni ystyried ein deiet hefyd. Mae angen i blant fwyta amrywiaeth o fwydydd iach gan gynnwys protein, carbohydradau, fitaminau a mwynau. Ar y Plât Bwyta'n Iach fe welwch y mathau o fwydydd sydd eu hangen i greu deiet cytbwys.

Mae angen braster ond nid yw'n anodd ei gael. Dylid dewis bwydydd braster isel neu gyda llai o siwgr ynddyn nhw. Mae siwgr yn difetha ein dannedd. Mae'n bwysig gofalu amdanyn nhw!

Mae'n bwysig ein bod ni'n yfed digon i gadw'r corff yn iach. Pan fo'r tywydd yn boeth, mae angen mwy o hylif ar y corff. Mae angen tua 1.5 i 2 litr o hylif bob dydd ar y corff. Dŵr yw'r hylif gorau i'w yfed. Gall yfed digon o ddŵr:

- ein helpu i ganolbwyntio
- gwella ein perfformiad mewn chwaraeon
- atal cur pen*.

*cur pen - pen tost

**Plât Bwyta'n Iach**



**1** **Dewiswch** a **chopïwch** is-bennawd sy'n sôn am gyflymder.

_______________________________________________

1 — 1m

**2** Yn ôl y darn, mae hyd y rasys sydd wedi'u trefnu yn amrywio. Gall plant redeg . . .

Ticiwch **1**.

- 1km. ☐
- 2km. ☐
- 3km. ☐
- 4km. ☐

2 — 1m

**3** Yn ôl y darn, byddai disgwyl i oedolion redeg o leiaf . . .

Ticiwch **1**.

- 3km. ☐
- 4km. ☐
- 5km. ☐
- 6km. ☐

YSGOL CYMERAU

3 — 1m

**4** Edrychwch ar ran o flog Mari yn y bocs isod.

**Tanlinellwch 1** gair sy'n dangos safle Mari yn y ras.

> Dydd Sul, 18 Mawrth – Ras hwyl arall heddiw ar lwybrau drwy'r goedwig. Ces i amser gwych ac ennill yr ail wobr!

4 — 1m

*trosodd*

CYFANSWM — 4m

**5** Tynnwch **4** llinell i orffen pob brawddeg am ddŵr. Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Gall dŵr | yw'r hylif gorau i'w yfed. |
| Mae'n bwysig yfed | angen 1.5 i 2 litr o hylif. |
| Mewn tywydd poeth | atal cur pen. |
| Mae'r corff | dŵr i gadw'r corff yn iach. |
| Dŵr | mae angen mwy o hylif. |

5
2m

**6** Edrychwch ar y testun yn y bocs.

**Tanlinellwch 1** gair sy'n disgrifio'r mathau o fwyd rydym yn eu bwyta.

> Er mwyn cadw'n iach, rhaid inni ystyried ein deiet hefyd.

YSGOL CYMERAU

6
1m

**7** Tynnwch **3** llinell i ddangos effaith y pethau hyn ar y corff.

| | |
|---|---|
| siwgr | cadw'r galon yn iach |
| dŵr | difetha dannedd |
| ymarfer corff | ein helpu i ganolbwyntio |

7
1m

**8** Rhowch ddigwyddiadau blog Mari yn eu trefn, o 1 i 5.
Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| sesiwn ymarfer yn y clwb | ☐ |
| ras hwyl i'r aelodau iau | ☐ |
| ennill yr ail wobr | ☐ |
| mynd i'r clwb yn gynnar | 1 |
| ras hwyl ar lwybrau drwy'r goedwig | ☐ |

8
1m

**9** Yn ei blog, mae Mari'n dangos i ni ei bod hi . . .

Ticiwch **2.**

| | |
|---|---|
| yn bositif ac yn frwdfrydig. | ☐ |
| yn drist pan fydd hi ddim yn ennill. | ☐ |
| wedi cael llond bol ar yr holl ymarfer. | ☐ |
| yn barod iawn i wneud ymdrech. | ☐ |
| yn flinedig. | ☐ |

9
1m

YSGOL CYMERAU

*trosodd*

CYFANSWM
6m

# Antur yn y coed!

O Goed Moel Famau yn y Gogledd i lawr i Barc Coedwig Afan yn y De, fe allwn ymweld â choedwigoedd ar draws Cymru. O feicio mynydd mentrus i fynd am dro hamddenol mewn coedwig, mae gan goedwigoedd Cymru lwybrau a gweithgareddau at ddant pawb.

**Canolfannau ymwelwyr**

| **Canolfan Ymwelwyr Garwnant**, ger Merthyr Tudful yng ngwaelod Bannau Brycheiniog. | **Canolfan Coed y Brenin**, wyth milltir i'r gogledd o Ddolgellau. |
| --- | --- |
| Yma mae:<br>• canolfan wybodaeth<br>• caffi newydd<br>• cyfleusterau addysg<br>• lleoedd chwarae a llwybrau pos anifeiliaid<br>• llwybrau beicio mynydd<br>• digwyddiadau tymhorol. | Yma mae:<br>• caffi gyda golygfeydd o'r mynyddoedd<br>• antur gwifrau uchel<br>• lleoedd chwarae a llwybrau pos anifeiliaid<br>• llwybrau beicio mynydd<br>• beiciau i'w llogi. |



**Beicio mynydd**

Mae digonedd o leoedd mewn nifer o goedwigoedd yng Nghymru i ddechreuwyr a beicwyr profiadol feicio mynydd. Mae yna drac sgiliau arbennig ym Mwlch Nant yr Arian, ger Aberystwyth. Yno, mae cyfle i bobl o bob oed ymarfer eu techneg cyn mentro ar y llwybrau hir.

Ond cofiwch: **Gwisgwch helmed bob tro!**



**Ralio ceir**

Mae cystadleuwyr Rali Cymru GB yn dilyn llwybr trwy goedwigoedd Cymru. Daw gyrwyr o bedwar ban byd i gystadlu. Mae apêl y rali wedi lledaenu gyda theuluoedd yn mwynhau'r profiad o wylio'r ceir, ac mae sêr y byd ralio ar gael i bawb gyfarfod â nhw. Mae'r rali yn cael ei darlledu ar y teledu yn fyd-eang sy'n ffordd wych o dynnu sylw at Gymru!

**Y coedwigoedd glaw**

Ymhell bell i ffwrdd
mae 'na fyd hud
yn llawn symud a lliw
yn llawn lledrith.

Coed tal
yn gewri toreithiog,
a'u dail yn hapus o wyrdd
yn ymbarél
dros y bywyd islaw.

Adar llachar
fel smotiau paent
yn tasgu blith draphlith
drwy'r brigau,
a'u trydar yn ddi-stop.

Creaduriaid
yn gwau drwy'r llwyni,
i greu tapestri
o fywyd gwyllt,
yn hela
yn neidio
yn llusgo
yn byw
yn y byd hud
ymhell bell i ffwrdd.

*Ruth Pritchard*

**1** Sawl milltir i'r gogledd o Ddolgellau mae Canolfan Coed y Brenin?

Ticiwch **1**.

- 10 milltir ☐
- 8 milltir ☐
- 15 milltir ☐
- 6 milltir ☐

1 (1m)

**2** Ble allwch chi weld trac sgiliau arbennig ar gyfer beicio mynydd?

Ticiwch **1**.

- ger Abertawe ☐
- ger Aberystwyth ☐
- ger Abergele ☐
- ger Aberaeron ☐

2 (1m)

**3** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

YSGOL CYMERAU

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Mae Canolfan Ymwelwyr Garwnant ger Merthyr Tudful. | | |
| Mae Canolfan Coed y Brenin 20 milltir o Ddolgellau. | | |
| Gallwn ymarfer sgiliau beicio mynydd ym Mwlch Nant yr Arian. | | |
| Does dim coedwigoedd yn ne Cymru. | | |
| Dydy plant ddim yn cael beicio mynydd mewn coedwigoedd. | | |

3 (2m)

**4** Tynnwch **4** llinell i ddangos ble mae'r mannau hyn. Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Moel Famau | Bannau Brycheiniog |
| Parc Coedwig Afan | ger Aberystwyth |
| Canolfan Ymwelwyr Garwnant | gogledd Cymru |
| Bwlch Nant yr Arian | de Cymru |
| Canolfan Coed y Brenin | wyth milltir o Ddolgellau |

(Parc Coedwig Afan — de Cymru)

4 (2m)

*trosodd*

CYFANSWM 6m

**5** Yn ôl y darn, beth mae'n rhaid i chi ei gofio cyn mynd i feicio mynydd?

Ticiwch **1**.

- bwyta cinio ☐
- yfed dŵr ☐
- gwisgo helmed ☐
- prynu tocyn ☐

5 — 1m

**6** Edrychwch ar y darn am ralio ceir.

Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Daw'r gyrwyr o bedwar ban byd. | | |
| Mae ralio'n apelio at deuluoedd. | | |
| Mae sêr y byd ralio yn cystadlu. | | |
| Dydy ralio ddim yn cael ei ddarlledu. | | |
| Dydy'r rali ddim yn dilyn llwybr trwy goedwigoedd Cymru. | | |

6 — 2m

YSGOL CYMERAU

**7** Yn ôl y darn, beth allwch chi ei wneud yn y coedwigoedd?

Ticiwch **3**.

- mynd am dro hamddenol ☐
- hela ☐
- gwylio Rali Cymru GB ☐
- llogi beiciau ☐
- gwersylla ☐

7 — 1m

**8** Mae'r gerdd yn sôn am . . .

Ticiwch **2**.

- adar. ☐
- pethau byw yn y coedwigoedd. ☐
- rhywun yn ymweld â'r coedwigoedd. ☐
- coedwigoedd Cymru. ☐

8 — 1m

**9** **Dewiswch** a **chopïwch 1** gair o'r gerdd sy'n dweud beth mae'r dail gwyrdd yn ei greu dros y bywyd islaw.

____________________________

9 — 1m

**10** Tynnwch **3** llinell i ddangos beth sy'n cael ei ddisgrifio.

| | |
|---|---|
| fel smotiau paent | dail |
| yn hapus o wyrdd | creaduriaid |
| tapestri o fywyd gwyllt | adar llachar |

10 — 1m

**11** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

**Tanlinellwch 1** gair sy'n dangos sut mae'r creaduriaid yn symud.

> Creaduriaid yn gwau drwy'r llwyni, i greu tapestri o fywyd gwyllt . . .

11 — 1m

**12** Pa ddarn o'r gerdd sy'n disgrifio'r adar yn gwneud llawer o sŵn?

YSGOL CYMERAU

Ticiwch **1.**

- yn llawn symud a lliw ☐
- yn llawn lledrith ☐
- a'u trydar yn ddi-stop ☐
- i greu tapestri o fywyd gwyllt ☐

12 — 1m


**13** Dyma gopi o'r testun. Labelwch bob saeth i ddangos beth yw cynnwys pob rhan.

**A** – pwyntiau bwled ☐

**B** – is-bennawd ☐

**C** – prif bennawd ☐

**Ch** – cerdd ☐



## Antur yn y coed!

O Goed Moel Famau yn y Gogledd i lawr i Barc Coedwig Afan yn y De, fe allwn ymweld â choedwigoedd ar draws Cymru. O feicio mynydd mentrus i fynd am dro hamddenol mewn coedwig, mae gan goedwigoedd Cymru lwybrau a gweithgareddau at ddant pawb.

**Canolfannau ymwelwyr**

| **Canolfan Ymwelwyr Garwnant**, ger Merthyr Tudful yng ngwaelod Bannau Brycheiniog. | **Canolfan Coed y Brenin**, wyth milltir i'r gogledd o Ddolgellau. |
|---|---|
| Yma mae:<br>• canolfan wybodaeth<br>• caffi newydd<br>• cyfleusterau addysg<br>• lleoedd chwarae a llwybrau pos anifeiliaid<br>• llwybrau beicio mynydd<br>• digwyddiadau tymhorol. | Yma mae:<br>• caffi gyda golygfeydd o'r mynyddoedd<br>• antur gwifrau uchel<br>• lleoedd chwarae a llwybrau pos anifeiliaid<br>• llwybrau beicio mynydd<br>• beiciau i'w llogi. |

**Beicio mynydd**

Mae digonedd o leoedd mewn nifer o goedwigoedd yng Nghymru i ddechreuwyr a beicwyr profiadol feicio mynydd. Mae yna drac sgiliau arbennig ym Mwlch Nant yr Arian, ger Aberystwyth. Yno, mae cyfle i bobl o bob oed ymarfer eu techneg cyn mentro ar y llwybrau hir.

Ond cofiwch: **Gwisgwch helmed bob tro!**

**Ralio ceir**

Mae cystadleuwyr Rali Cymru GB yn dilyn llwybr trwy goedwigoedd Cymru. Daw gyrrwyr o bedwar ban byd i gystadlu. Mae apêl y rali wedi lledaenu gyda theuluoedd yn mwynhau'r profiad o wylio'r ceir, ac mae sêr y byd ralio ar gael i bawb gyfarfod â nhw. Mae'r rali yn cael ei darlledu ar y teledu yn fyd-eang sy'n ffordd wych o dynnu sylw at Gymru!

**Y coedwigoedd glaw**

Ymhell bell i ffwrdd
mae 'na fyd hud
yn llawn symud a lliw
yn llawn lledrith.

Coed tal
yn gewri toreithiog,
a'u dail yn hapus o wyrdd
yn ymbarél
dros y bywyd islaw.

Adar llachar
fel smotiau paent
yn tasgu bîth draphlîth
drwy'r brigau,
a'u trydar yn ddi-stop.

Creaduriaid
yn gwau drwy'r llwyni,
i greu tapestri
o fywyd gwyllt,
yn hela
yn neidio
yn llusgo
yn byw
yn y byd hud
ymhell bell i ffwrdd.

*Ruth Pritchard*

8

13 — 1m

CYFANSWM — 10m


*trosodd*




# Dail a gwreiddiau

Un diwrnod yn yr haf, gorweddai buwch goch a buwch ddu o dan dderwen fawr. Roedd yn ddiwrnod poeth a thywynnai'r haul ar y caeau a'r coed. Roedd y ddwy yn cnoi eu cil yn freuddwydiol gan ysgwyd eu cynffonnau ambell waith i anfon y gwybed i ffwrdd.

"Mae hi'n braf yma," meddai'r fuwch ddu.
"M-mmmm!" atebodd y fuwch goch yn gysglyd.



"Fe ddylen ni fod yn ddiolchgar i'r dail am roi cysgod i ni," meddai'r fuwch ddu. "Byddai'n ddrwg iawn arnon ni heb y dail yn yr haf ac yn ddrwg ar y goeden hefyd. Wyt ti'n cofio'r olwg noeth a llwm oedd arni yn y gaeaf? Pethau hyll yw coed heb ddail. Dail sy'n gwneud y wlad yn brydferth yn yr haf. Byddai ar ben ar yr adar heb y dail. Ble allen nhw guddio'u nythod heb ddail ar y coed?"




Gwrandawai'r boncyff mawr ar y fuwch a theimlodd yn ddig. Beth oedd y fuwch yn meddwl wrth ddweud mai'r dail oedd rhan bwysicaf y goeden?

Y boncyff a'r canghennau oedd y rhannau pwysicaf! Yn y boncyff mawr tew roedd nerth y goeden. Pan fyddai'r gwynt yn chwythu'n gryf o'r gorllewin, y boncyff oedd yn sefyll tra oedd y dail yn cael eu chwythu i'r llawr. Ac er ei fod e'n hen iawn, roedd mor gryf ag erioed.

A dyna'r canghennau wedyn. Mae'n wir bod rheini'n plygu pan chwythai'r gwynt yn gryf, ond anaml iawn y byddai un ohonyn nhw'n torri. Yn yr hydref, byddai'r dail yn crino ac erbyn y gaeaf, bydden nhw i gyd wedi marw. Ond byddai'r boncyff a'r canghennau'n aros, er y gwynt a'r glaw, nes daw gwanwyn arall.

Roedd gwreiddiau'r goeden fawr hefyd wedi clywed beth ddywedodd y fuwch.



"Y dail, yn wir!" sibrydodd y gwreiddiau wrth ei gilydd. "Nid y dail yw rhan bwysicaf y goeden. Ac nid y canghennau chwaith, na'r boncyff anferth. Na! Ni, y gwreiddiau, yw'r rhan bwysicaf. Ni sy'n gwthio ein bysedd i'r pridd i edrych am fwyd i'r goeden. Ni sy'n gyrru'r bwyd i fyny drwy'r boncyff i'r brigau a'r dail. Byddai'r goeden wedi marw ers tro oni bai ein bod ni'n gweithio mor galed. O na! Ni sy'n bwysig. Dydyn ni ddim yn hardd fel y dail nac yn gryf fel y boncyff. Rydyn ni'n gweithio yn y tywyllwch dan y ddaear. Felly, does neb yn meddwl amdanon ni o gwbl!"

**1** Ar ddechrau'r stori, beth mae'r ddwy fuwch yn ei wneud?

Ticiwch **1**.

cysgu ☐
cerdded ☐
gorwedd ☐
rhedeg ☐

1 — 1m

**2** Sut mae'r ddwy fuwch yn cnoi eu cil?

Ticiwch **1**.

yn gysglyd ☐
yn ddiolchgar ☐
yn freuddwydiol ☐
yn ddigalon ☐

2 — 1m

**3** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

YSGOL CYMERAU

**Tanlinellwch 1** gair sy'n dweud beth sy'n digwydd i'r canghennau bob tro y bydd hi'n wyntog.

> A dyna'r canghennau wedyn. Mae'n wir bod rheini'n plygu pan chwythai'r gwynt yn gryf, ond anaml iawn y byddai un ohonyn nhw'n torri.

3 — 1m

**4** Tynnwch **3** llinell i ddangos pam mae pob rhan o'r goeden yn bwysig.

| | |
|---|---|
| dail | yn rhoi nerth |
| boncyff | yn rhoi cysgod |
| gwreiddiau | yn rhoi bwyd i'r goeden |

4 — 1m

*trosodd*

CYFANSWM — 4m

**5** Tynnwch **3** llinell i ddangos sut mae pob rhan o'r goeden yn cael ei disgrifio yn y testun.

| | |
|---|---|
| dail | yn hardd |
| boncyff | yn weithgar |
| gwreiddiau | yn gryf |

5 1m

**6** Yn ôl y darn, pwy sy'n sibrwd?

| | Ticiwch **1**. |
|---|---|
| y ddwy fuwch | ☐ |
| y gwreiddiau | ☐ |
| y dail | ☐ |
| y boncyff | ☐ |

6 1m

**7** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

YSGOL CYMERAU

**Tanlinellwch 2** ansoddair sy'n disgrifio'r coed heb ddail yn y gaeaf.

> Byddai'n ddrwg iawn arnon ni heb y dail yn yr haf ac yn ddrwg ar y goeden hefyd. Wyt ti'n cofio'r olwg noeth a llwm oedd arni yn y gaeaf?

7 1m

**8** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Mae'r dail yn rhoi cysgod i'r ddwy fuwch. | | |
| Mae nerth yn y boncyff mawr tew. | | |
| Mae'r dail yn crino yn y gaeaf. | | |
| Mae'r gwreiddiau'n rhoi bwyd i'r brigau a'r dail. | | |
| Mae'r boncyff yn diolch i'r gwreiddiau am eu gwaith caled. | | |

8 2m

**9** Rhowch yr wybodaeth yn y drefn mae'n ymddangos yn y stori, o 1 i 4.
Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Y gwreiddiau'n dweud eu bod yn gweithio'n galed. | ☐ |
| Dwy fuwch yn mwynhau'r tywydd. | 1 |
| Y boncyff yn teimlo'n ddig. | ☐ |
| Un fuwch yn canmol y dail. | ☐ |

9
1m

**10** Darllenwch y darn isod. Sut mae'r awdur yn dangos bod y gwreiddiau wedi colli eu tymer yma?

> Na! Ni, y gwreiddiau, yw'r rhan bwysicaf. Ni sy'n gwthio ein bysedd i'r pridd i edrych am fwyd i'r goeden. Ni sy'n gyrru'r bwyd i fyny drwy'r boncyff i'r brigau a'r dail. Byddai'r goeden wedi marw ers tro oni bai ein bod ni'n gweithio mor galed. O na! Ni sy'n bwysig.

YSGOL CYMERAU

Ticiwch **2**.

| | |
|---|---|
| Ailadrodd y gair 'ni' sawl gwaith. | ☐ |
| Disgrifio'r brigau a'r dail. | ☐ |
| Dweud bod gan y gwreiddiau fysedd. | ☐ |
| Defnyddio ebychnod ar ôl 'Na!' | ☐ |

10
1m

**Diwedd y prawf. Gwiriwch eich gwaith.**

CYFANSWM
7m

YSGOL CYMERAU

**Diolchiadau**

'Dail a gwreiddiau' addaswyd o *Llyfrau Darllen Newydd: Llyfr 2* gan T. Llew Jones (Gomer, 1996)

'Y fforestydd glaw' gan Ruth Pritchard o *Byd Gwyrdd* gan Myrddin ap Dafydd (Gwasg Carreg Gwalch, 2011)

Mae'r testunau hyn wedi eu cynnwys yn y prawf hwn at ddibenion yr arholiad yn unig yn unol ag Adran 32(3) y Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988. Nid oes cais wedi ei wneud na hawl wedi ei roi ar gyfer unrhyw hawlfraint arall.

© Hawlfraint y Goron 2018